# BBC

# TRWYDDEDU TELEDU

# POLISI AR GYFER CWSMERIAID AGORED I NIWED

# BBC Trwyddedu Teledu Polisi ar gyfer Cwsmeriaid Agored i Niwed

## Rhagarweiniad

Mae Trwyddedu Teledu yn cydnabod y bydd rhai o'i gwsmeriaid yn agored i niwed, oherwydd eu hamgylchiadau personol. Oherwydd ein bod mewn cyswllt â bron pob cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, mae'n bwysig ein bod yn gwneud addasiadau rhesymol a rhoi cefnogaeth ychwanegol briodol pan fydd angen er mwyn i Drwyddedu Teledu allu rhyngweithio â chwsmeriaid sy'n agored i niwed. Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hymagwedd tuag at y cwsmeriaid hyn a'r fframwaith sydd ar gael gennym i'w cefnogi.

Mae Trwyddedu Teledu wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth briodol i gwsmeriaid agored i niwed ac mae hyn yn rhan o ymrwymiad ehangach y BBC i sicrhau bod gwasanaethau Trwyddedu Teledu yn bodloni rhwymedigaethau Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Bydd Trwyddedu Teledu yn asesu pob achos yn ôl ei deilyngdod oherwydd gall y term 'agored i newid' amrywio'n fawr. Er enghraifft[1], gallai unigolyn fod yn agored i niwed trwy fod yn berson ifanc ag awtistiaeth sy'n byw'n annibynnol am y tro cyntaf, neu drwy fod yn rhiant sengl gyda phlant dibynnol sydd ag iselder difrifol, neu fe all fod yn agored i niwed oherwydd ei fod yn dioddef o afiechyd terfynol. Gallai rhywun fod yn agored i niwed hefyd os oes ganddynt dementia.

Mae'n ofyniad cyfreithiol i gael trwydded os oes angen un ac ni all Trwyddedu Teledu hepgor y gofyniad i dalu'r ffi lawn oni bai fod consesiynau'n gymwys. Rydym eisiau ei gwneud hi mor hawdd â phosib i bobl dalu ac mae cynlluniau rhandaliadau ar gael, gan gynnwys cynlluniau talu arian parod, er mwyn i gwsmeriaid allu rhannu cost trwydded.

## Hyd a lled

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer ystyried anghenion unrhyw unigolyn sy'n delio â Thrwyddedu Teledu ar draws y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Dibynwledydd y Goron). Er bod y polisi yn cyfeirio at "gwsmeriaid" agored i niwed, dylid cymryd bod hyn yn cynnwys pob unigolyn y mae Trwyddedu Teledu yn ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn cynnwys deiliaid trwyddedau, pobl nad oes arnynt angen trwydded a'r rhai sy'n byw mewn cyfeiriadau heb drwydded, a allent brofi gweithgarwch gorfodi. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys gofalwyr anffurfiol a ffurfiol sy'n gofalu am bobl agored i niwed.

---

[1] Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar fod yn agored i niwed heblaw'r elfen ariannol. I gael rhagor o wybodaeth am bobl sy'n wynebu anawsterau ariannol, edrychwch ar y wybodaeth ar ymgysylltu â rhanddeiliaid (t5) a methu taliadau (t6).

## Canllawiau a deddfwriaeth berthnasol

Does dim canllawiau sy’n uniongyrchol berthnasol ar gwsmeriaid agored i niwed sy’n ymwneud yn benodol â’r BBC mewn perthynas â Thrwyddedu Teledu. Ond mae amryw o ddeddfwriaethau perthnasol y bydd Trwyddedu Teledu yn eu hystyried wrth gymhwyso’r polisi hwn a datblygu prosesau sy’n gysylltiedig â rhoi cefnogaeth i Gwsmeriaid Agored i Niwed. Mae hyn yn cynnwys:

- Canllaw yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA): bydd unrhyw ddarparwr rheoli dyledion sy’n gweithredu ar ran Trwyddedu Teledu yn rhwym i reolau’r FCA ac felly rhaid iddynt fod â’u polisi eu hunain yn ei le ar gyfer rheoli cwsmeriaid agored i niwed a rhaid cadw at y polisi hwn. Mae’r FCA yn tynnu sylw at bedwar prif beth i’w hystyried sy’n gyrru bod yn agored i niwed. Sef:

    - **Gallu:** gwybodaeth isel am faterion ariannol neu hyder isel wrth reoli arian. Mae hyn yn cynnwys sgiliau rhifedd, llythrennedd ac iaith isel.
    - **Iechyd:** cyflyrau iechyd neu salwch sy’n effeithio ar y gallu i gyflawni tasgau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, a chyflyrau dros dro a chronig.
    - **Digwyddiadau bywyd:** digwyddiadau mawr bywyd fel profedigaeth neu berthynas yn chwalu, cyfrifoldebau gofal a cholli swydd.
    - **Gwytnwch:** gallu isel i wrthsefyll siociau ariannol neu emosiynol. Mae hyn yn cynnwys incwm anghyson, cynilion isel a gor-ddyled.

- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Wrth bennu sut i ymdrin yn briodol â chwsmeriaid agored i niwed, bydd Trwyddedu Teledu yn ystyried ei rwymedigaethau dan PSED. Bydd y BBC yn datblygu cynlluniau cydraddoldeb clir, gan weithio gyda chynghorwyr cyfreithiol i sicrhau ein bod yn mynd ati’n gywir i fodloni rhwymedigaethau cymwys y PSED. Mae gan gyflenwyr allweddol Trwyddedu Teledu gynllun cydraddoldeb sydd wedi’i gymeradwyo a’i fonitro gan y BBC.

- Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron: Mae Capita yn erlynydd perthnasol er dibenion adran 29 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Bydd Capita yn cadw at y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron ac yn rhoi sylw dyledus i’r adran berthnasol yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE)[2]. Mae’r Côd a PACE yn benodol i Gymru a Lloegr ac mae deddfwriaeth arall yn gymwys mewn awdurdodaethau eraill.

- Daeth Rheoliadau Lle i Anadlu[3] newydd i rym o 4 Mai 2021 yng Nghymru a Lloegr sy’n gymwys i Drwyddedu Teledu. Gall unigolion wneud cais i ddarparwr cyngor am ddyled am ‘le i anadlu’ rhag eu dyledion. Gellir rhoi Lle i Anadlu am 60 diwrnod. I’r rhai sy’n wynebu argyfwng iechyd meddwl, bydd y Lle i Anadlu yn para gyn hired ag unrhyw driniaeth ac am 30 diwrnod ar ôl i’r driniaeth orffen. Manylion pellach: https://www.tvlicensing.co.uk/faqs/FAQ171

---

[2] Mae’r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron a PACE yn benodol i Gymru a Lloegr. Mae deddfwriaeth a chanllawiau eraill yn gymwys mewn awdurdodaethau eraill.

[3] Rheoliadau’r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl (Cymru a Lloegr) 2020

## Egwyddorion allweddol

### Trosolwg

Mae bod yn agored i niwed yn gallu bod yn aml-ddimensiwn a byrhoedlog wrth i amgylchiadau newid, neu gall fod yn barhaol. Mae cyfuniad o amgylchiadau personol cwsmer a hefyd eu nodweddion yn dylanwadu ar ba mor agored i niwed yw pobl, a gellir ei ddiffinio fel:

> Cwsmer nad yw, oherwydd nodweddion personol, sefyllfa gyffredinol ei fywyd neu oherwydd ffactorau'r farchnad ac economaidd ehangach, yn cael cyfle rhesymol i gael mynediad at wasanaeth cynhwysol a defnyddio'r gwasanaeth hwnnw, a gall hynny gael effaith andwyol ar ei iechyd, ei les neu ei arian.

Gall nifer o ffactorau olygu bod rhai defnyddwyr yn wynebu mwy o risg o anfantais nag eraill, neu'n golygu eu bod yn llai abl i ymgysylltu â Thrwyddedu Teledu. Er enghraifft, gall y rhain fod yn ffactorau sy'n gysylltiedig â'r unigolyn, fel dementia, anawsterau dysgu neu beidio â siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Gallai hyn hefyd gynnwys amgylchiadau fel bod yn ofalwr llawn amser neu fod heb gysylltiad â'r rhyngrwyd. Gall effaith unrhyw anfantais hefyd fod yn fwy ar gyfer rhai defnyddwyr, er enghraifft oherwydd y ffordd y byddwn yn ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n gorfod talu am Drwydded Deledu.[4]

### Egwyddorion

- Mae Trwyddedu Teledu yn gweithio yn ôl yr egwyddor cyffredinol y byddwn yn cymryd camau rhesymol a phriodol i ystyried amgylchiadau unrhyw unigolyn sy'n arbennig o agored i niwed ac felly sydd angen un ai:
    - addasiadau i'r ffordd y byddwn yn cyfathrebu â nhw a'u cefnogi, a/neu
    - ystyriaeth arbennig yng nghyd-destun camau gorfodi ac erlyn wrth ystyried prawf budd y cyhoedd.
- Mae Trwyddedu Teledu yn cydnabod y gall bod yn agored i niwed fod yn gyflwr dros dro neu barhaol, fod yna sbectrwm o ran bod yn agored i niwed, ac y daw rhai cwsmeriaid yn agored i niwed dan amgylchiadau lle na fydd cwsmeriaid eraill o bosib yn dod yn agored i niwed.
- Fel unrhyw gwsmer, y mae hawl gan bobl sy'n agored i niwed i gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu ni waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb neu gredoau.
- Rydym yn sylweddoli y bydd yn anodd i rai pobl ryngweithio â Thrwyddedu Teledu. Byddwn yn gweithio ar y sail fod amgylchiadau pob cwsmer yn wahanol ac felly mae'n bosib y bydd angen ystyried achosion yn unigol. Hyd y bo modd, byddwn yn trin unigolion mewn ffordd sy'n briodol i'w hanghenion ac mae gennym nifer o brosesau a dulliau ar gael i hwyluso hyn.

[4] Mae ein diffiniad ni o fod yn agored i niwed wedi'i hysbysu gan waith a gyflawnwyd gan Ofwat. Cyfeiriwyd at ddiffiniad Ofwat gan nifer o wahanol sefydliadau ac mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi cydnabod gwaith y rheoleiddiwr ar fod yn agored i niwed. Ein teimlad yw mai alinio â'r agwedd hon yw'r ffordd fwyaf addas o grisialu maes cymhleth bod yn agored i niwed.

- Mae Trwyddedu Teledu yn deall sensitifrwydd data personol mewn perthynas â phobl sy'n agored i niwed (er enghraifft lle mae'r wybodaeth yn gysylltiedig â iechyd corfforol neu feddyliol neu amgylchiadau ariannol) a bydd yn sicrhau bod data o'r fath yn cael ei ddiogelu'n addas.

## Cyd-destun cyfreithiol

- Mae'n bwysig nodi bod osgoi prynu Trwydded Deledu yn drosedd atebolrwydd caeth[5] (yn debyg i drosedd goryrru). Felly mae angen i ymagwedd Trwyddedu Teledu adlewyrchu bod dyletswydd arno i weithredu'r gyfraith mewn ffordd sy'n deg a hefyd yn briodol.

- Er y bydd yn angenrheidiol i ni erlyn cwsmeriaid weithiau, erlyn yw'r dewis olaf pan fyddwn wedi dihysbyddu ymdrechion i annog unigolyn i fod â thrwydded briodol. Mae'r cyfleoedd i droseddwyr tro cyntaf osgoi erlyniadau i'w gweld yn Côd Erlyn Trwyddedu Teledu. Mae unrhyw benderfyniad i erlyn yn cynnwys prawf budd y cyhoedd, rhoi ystyriaeth i ffactorau budd y cyhoedd a amlinellir yn y Polisi ar Erlyniadau Trwyddedu Teledu.

- Rydym yn cymryd unrhyw gŵyn am driniaeth cwsmeriaid agored i niwed yn gwbl o ddifrif. Fel gyda phob cwyn, bydd Trwyddedu Teledu yn ymchwilio i unrhyw gŵyn o'r math hwn yn gynhwysfawr, trwy broses un pwrpas a bydd yn cysylltu â thrydydd partïon penodol ac arbenigol fel bo'n briodol i natur agored i niwed ac anghenion y cwsmer (e.e. sefydliadau sy'n rhoi cyngor am ddyled neu weithwyr cymdeithasol o awdurdod lleol).

## Sut bydd Trwyddedu Teledu yn cefnogi Cwsmeriaid Agored i Niwed

Mae gan Drwyddedu Teledu nifer o wasanaethau a phrosesau ar gael i gefnogi cwsmeriaid. Mae rhai o'r rhain wedi'u hanelu at bobl anabl sydd o bosib heb fod yn agored i niwed, ond sydd angen i ni wneud pethau ychydig yn wahanol. Mae'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn cael eu crynhoi isod:

- **Fformatau gwahanol** – er na fydd llawer o gwsmeriaid sydd angen addasiadau rhesymol yn agored i niwed, rydym yn cydnabod, i rai cwsmeriaid, y bydd anabledd fel bod yn ddall (â nam difrifol ar y golwg) yn golygu bod angen i ni gyfathrebu â'r cwsmer hwnnw mewn ffordd wahanol. Gall hyn gynnwys darparu negeseuon mewn print bras, Braille neu ar ffurf tâp sain

- **Cymorth 'Text Relay'** – ar gyfer cwsmeriaid sy'n fyddar, yn drwm eu clyw neu â nam ar eu lleferydd, rydym yn cynnig cefnogaeth trwy dderbyn galwadau ffôn oddi wrth Gynorthwywyr 'Text Relay'. I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar tvl.co.uk/hygyrchedd.

[5] Mae trosedd atebolrwydd caeth yn drosedd y gallech fod yn euog ohono trwy gyflawni'r weithred yn unig, hyd yn oed os nad oedd yn fwriad gennych neu os nad oeddech yn gwybod eich bod yn torri'r gyfraith.

- **Adnoddau Iaith** – fe all rhwystr iaith arwain at unigolion yn bod yn agored i niwed, yn enwedig o'u cyfuno â ffactorau eraill fel oedran neu arwahanrwydd cymdeithasol. Mae Trwyddedu Teledu yn cynnig nifer o adnoddau iaith:

    - Mae gennym wasanaeth cyfieithu i bobl sy'n ffonio ein llinell gymorth sy'n hwyluso sgwrs dair ffordd gyda'r cwsmer, cyfieithydd, a'n canolfan gyswllt.
    - Mae ein gwefan yn cynnig gwybodaeth allweddol mewn 26 o ieithoedd.
    - Mae taflenni yn yr ieithoedd hynny ar gael i grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol i'w lawrlwytho neu eu harchebu oddi ar ein gwefan.

- **Hawdd ei Ddeall -** rydym yn cynnig tudalen gwe Hawdd ei Ddeall gyda gwybodaeth allweddol i gwsmeriaid ynghylch pryd mae arnynt angen trwydded, sut i dalu am drwydded, a sut i gysylltu â ni.

- **Mynediad i'r we** – mae gwefan Trwyddedu Teledu yn cydymffurfio â chanllawiau W3C a byddwn yn gweithio'n rheolaidd â thrydydd partïon fel yr RNIB ac Ymgyrch Plain English i roi gwell mynediad i'n gwefan, a hefyd i wneud yn fawr o ddyfeisiau symudol (ei gwneud yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n mynd at ein gwefan gyda ffôn symudol neu ddyfeisiau llai).

- **Proses Addasiadau Rhesymol**

    - Mae gan Drwyddedu Teledu broses ar gael i nodi ac ystyried nifer o addasiadau i gwsmeriaid sydd eu hangen o bosib. Mae'r broses hon yn arbennig o bwysig o ystyried bod amgylchiadau pob cwsmer yn wahanol.
    - Rydym yn ymwybodol efallai y bydd rhai cwsmeriaid yn gofyn am addasiad yn benodol (a nodi pa addasiad sydd ei angen arnynt) ond bydd pob cynghorydd rheng flaen yn derbyn hyfforddiant i nodi ble gellid bod angen addasiad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ar gyfer cwsmeriaid â materion iechyd meddwl.
    - Gall cwsmeriaid sy'n ceisio addasiad ffonio rhif un pwrpas (0300 790 6076) a fydd yn mynd yn uniongyrchol at gynghorydd.

- **Llinell gymorth i gynghorwyr (0300 303 9688)** – mae gennym linell gymorth, er defnydd penodol cynghorwyr sefydliadau fel elusennau dyled, swyddfeydd Cyngor ar Bopeth, Cymdeithas Alzheimer ac elusennau eraill sy'n cefnogi cwsmeriaid agored i niwed. Gall sefydliadau siarad yn uniongyrchol â chynghorydd arbenigol a fydd yn gallu helpu i drafod amgylchiadau cwsmer unigol.

- **Rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid**
    - Mae gan Drwyddedu Teledu raglen eang sy'n ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan weithio gyda thros 550 o elusennau, yn ogystal â grwpiau cymunedol a sefydliadau cyngor ariannol.
    - Byddwn yn cyfeirio cwsmeriaid at sefydliadau cyngor ariannol mewn llythyrau safonol perthnasol ac mewn ymtebion i ohebiaeth gan gwsmeriaid.

- **Cefnogi cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu**
    - Rydym yn parhau i weithio gyda grwpiau ledled y Deyrnas Unedig sy'n cefnogi pobl mewn trafferthion ariannol, ac rydym yn cynnig cynlluniau talu i helpu i rannu costau.

- Dylai cwsmeriaid sydd am drafod eu cynllun talu gysylltu â Thrwyddedu Teledu.
- Mae amryw o gynlluniau talu ar gael i helpu i rannu cost trwydded. Mae'r rhain yn cynnwys debyd uniongyrchol misol neu chwarterol, neu gerdyn talu Trwyddedu Teledu (sy'n galluogi cwsmeriaid i dalu'n wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol ar lein, drwy neges destun neu alwad, ar ap TVL Pay, neu mewn unrhyw siop PayPoint).
- Ein dewis mwyaf fforddiadwy yw'r Cynllun Talu Syml, sydd wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd. Mae'n galluogi cwsmeriaid i rannu eu taliadau'n gyfartal dros gyfnod eu trwydded. Os byddan nhw'n methu taliad, caiff y taliad hwn ei rannu ar draws oes y drwydded. Mae cwsmeriaid yn gymwys i ymuno:

    - os byddan nhw wedi cael ymweliad gan Swyddog Ymweld Trwyddedu Teledu i weld a oes angen trwydded arnynt.
    - os oedd ganddyn nhw dwydded o'r blaen a gafodd ei chanslo o fewn y chwe mis diwethaf oherwydd iddyn nhw fethu taliadau.
    - os ydyn nhw'n wynebu trafferthion ariannol ac yn cael eu cyfeirio gan sefydliad cyngor ariannol sy ddim yn gwneud elw. Rydym yn derbyn pobl sy'n cael eu cyfeirio gan sefydliadau sy ddim yn gwneud elw fel elusennau neu adrannau cyngor ariannol awdurdodau lleol, ond allwn ni ddim derbyn pobl sy'n cael eu cyfeirio gan sefydliadau masnachol.
    - os ydyn nhw wedi dal trwydded y Cynllun Talu Syml o fewn y 12 mis blaenorol.

- **Pobl dros 75**

    - Ar 31 Gorffennaf 2020, fe ddaeth Trwyddedau Teledu am ddim i ben i bawb dros 75 yn y Deyrnas Unedig, wedi'u hariannu gan y llywodraeth. Rydym wedi sefydlu prosesau i gefnogi cwsmeriaid a oedd â Thrwydded Deledu dros 75 am ddim o'r blaen, i'w cynorthwyo i wneud cais am drwydded newydd. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid siarad yn uniongyrchol â chynghorydd a gwneud cais am ad-daliad os oes ganddyn nhw hawl i gael ad-daliad[6].
    - O'r 1af Awst 2020, mae unrhyw un dros 75 sy'n derbyn Credyd Pensiwn yn gymwys i gael trwydded dros 75 am ddim, gyda'r BBC yn talu amdani. O ran cwsmeriaid sydd dros 75 ond ddim yn derbyn Credyd Pensiwn, bydd angen iddynt dalu am Drwydded Deledu. I gefnogi'r newid hwn, rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau, gan gynnwys y Cynllun 75+ sy'n caniatáu i gwsmeriaid rannu cost eu trwydded ar draws taliadau llai, cyfartal, ac ymweliadau gofal i gwsmeriaid i roi canllawiau wyneb yn wyneb ar sut i wneud trefniadau trwyddedu.

- **Canolfannau cyswllt** – Rydym yn darparu hyfforddiant penodol ar gwsmeriaid bregus a chydraddoldeb ac amrywiaeth i holl staff ein canolfan gyswllt yn ystod y cyfnod sefydlu, yn ogystal â hyfforddiant gloywi a chyfathrebu mewnol aml. Rydym yn edrych yn barhaus i wneud gwelliannau i sicrhau bod ein gwasanaeth yn hygyrch i bawb.

- **Swyddogion ymweld** – bydd pob swyddog ymholi Trwyddedu Teledu yn derbyn hyfforddiant penodol ynghylch sut i ymateb yn briodol i gwsmeriaid sy'n rhoi gwybod am anabledd pan fydd Trwyddedu Teledu yn ymweld â chyfeiriadau neu'n arddangos ymddygiad a allai fod yn arwydd o

[6] Gweler polisi ad-daliadau Trwyddedu Teledu am fwy o wybodaeth.

anabledd cudd. Mae pob ffurflen Cofnod o Gyfweliad yn gofyn a oes unrhyw beth arall y dylem ei wybod am y sawl sydd mewn perygl o gael ei erlyn.

- **Cwsmeriaid sy'n wynebu risg uniongyrchol o niwed** – weithiau byddwn yn dod ar draws cwsmeriaid sy'n wynebu risg uniongyrchol o niwed, un ai iddyn nhw eu hunain neu eraill ac mae gennym drefniadau ar gael i ddelio â'r rhain. Er bod achosion o'r fath yn brin iawn, fe all canlyniadau fod yn ddifrifol a bydd Trwyddedu Teledu yn sicrhau ei fod yn cymryd camau priodol i liniaru'r risg o niwed. Mae'r sefyllfaoedd yn cynnwys:
    - **Cwsmeriaid sy'n wynebu risg o drais domestig –** os bydd cwsmer yn rhoi gwybod i ni fod eu hamgylchiadau domestig yn elyniaethus, yna gallwn argymell mesurau diogelwch ychwanegol y gellir eu gosod ar eu cyfrif, gan gynnwys rhoi cyfrinair ar y cyfrif. Bydd camau priodol ychwanegol yn cael eu hystyried fesul achos.
    - **Llochesi –** Os cawn ein hysbysu bod safle penodol yn lloches neu'n dŷ diogel, byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod cyswllt â'r safle hwnnw'n cael ei reoli'n briodol.

**I gael mwy o wybodaeth am addasiadau rhesymol, cysylltwch â ni ar 0300 790 6076. Neu os ydych yn gwsmer sy'n agored i niwed neu'n ffonio ar ran cwsmer agored i niwed ffoniwch 0300 790 6114. Ceir rhagor o fanylion ar ein Tudalen gwe Hygyrchedd.**